# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(62)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:22.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Tâl rhanbarthol

Dechreuodd yr eitem am 14:27.

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Tai Gwag

Dechreuodd yr eitem am 15:05.

### 5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Blaenoriaethau cyllido'r UE ar gyfer y dyfodol

Dechreuodd yr eitem am 15.53

### 6. Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 16.28

**NDM4975 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**7. Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012**

Dechreuodd yr eitem am 16.30

**NDM4976 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**8. Cynnig Cydsyniad ar Orchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012**

Dechreuodd yr eitem am 16.33

**NDM4932 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog**

Dechreuodd yr eitem am 16.47

**NNDM4980 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan yr eitem olaf o fusnes (NDM4979) i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth, 8 Mai 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**9. Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Llafar**

Dechreuodd yr eitem am 16.48

**NDM4979 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Llafar’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2012; a

2. Yn cymeradwyo’r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 12, fel y nodir yn Atodiad A o Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Daeth y cyfarfod i ben am 16.49

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 9 Mai 2012**